

TEITL Y TRAETHAWD:

Archwiliwch y credoau a'r arferion sy'n benodol i Islam Shi'a.

Crynodeb â phwyntiau bwled

Credoau

- Mae Shi'a yn credu mai Ali ddylai fod wedi bod yn Galiff cyntaf Islam
- Mae Shi'a yn cefnogi ychwanegu enw Ali at y shahadah ac mae Sunni yn gwrthwynebu hyn
- Mae Shi'a yn credu bod Ali yn ffynhonnell hadith yn ogystal â Muhammad
- Cysyniad dioddefaint sy'n codi o farwolaeth a merthyrdod Husayn ibn Ali, e.e. Ashura – mae hyn yn gwneud i Shi'a fod yn hollol wahanol
- Ffocws Shi'a ar ormesu lleiafrif crefyddol sydd wedi'u dietifeddu o'u statws yn wir etifeddion llywodraeth wirioneddol Islamaidd
- Maen nhw'n derbyn rhinweddau dwyfol yr Imam
- Gallu'r Imam i ddehongli ac i 'ychwanegu' at y Qur'an drwy wybodaeth gyfrinachol
- Traddodiad o ddilyniant o Imams, pob un wedi'i ddewis gan yr un blaenorol, sydd ag awdurdod crefyddol a gwleidyddol
- Cred yn y Mahdi, yr arweinydd cudd terfynol
- Mae credoau ychydig yn wahanol gan bob un o'r Pumwyr, y Seithwyr a'r Deuddegwyr

Arferion

- Gŵyl Ashura yn Karbala er mwyn dynodi merthyrdod Husayn
- Hunan fflangellu a hunan-niweidio fel arwydd o ddioddefaint a gormes
- Pererindodau ychwanegol i greirfâu Imams a ffigurau hanesyddol arwyddocaol
- Natur orfodol khums (trethi) i ariannu hierarchaeth grefyddol
- Tri chyfarfod gweddi dyddiol yn hytrach na phump
- Gwyliau ychwanegol, e.e. genedigaeth Ali
- Caniatâd i berfformio 'taqiyya' os cewch eich erlid (cuddio eich ffydd)
- Priodas dros dro – 'muta'
- 'Rawdahs', dod ynghyd 40 niwrnod ar ôl marwolaeth rhywun
- Ffocws ar y jihad lleiaf fel y chweched piler mewn ymateb i ormes. Tuedd i fod yn eithafol.

Dyfyniadau

'Yn union fel mae Muhammad yn cael ei adnabod fel y Proffwyd olaf ac roedd yn enghraifft berffaith, mae'r Shi'a yn credu mai Ali oedd y dyn perffaith. Nid oes gan Imams Shi'a unrhyw bŵer goruwchnaturiol, ond credir eu bod nhw'n anffaeledig oherwydd eu ffydd absoliwt, ddigwestiwn yn Nuw a'u hymddygiad moesol iawn.' (Morar)

'Mae cysyniad merthyrdod wedi'i wreiddio'n ddwfn yn niwinyddiaeth y sect Shi'a. Mae cred hir fod rhoi eich bywyd dros achos cyfiawn yn weithred anrhydeddus sy'n cael ei gwobrwyo yn y nefoedd.' (Haleh Afshar)

'Bydd pobl yn ffoi oddi wrth y Mahdi, fel y mae defaid yn ffoi oddi wrth y bugail. Yn nes ymlaen, bydd pobl yn dechrau edrych am burwr. Ond gan nad ydyn nhw'n gallu dod o hyd i neb i'w helpu nhw heblaw amdano ef, byddan nhw'n dechrau rhedeg ato.' (Hadith y Proffwyd Muhammad)

'Tra oedd arbenigwyr cyfreithiol Sunni yn tueddu i bwysleisio'r pedwar Califf ac i ymostwng iddyn nhw ... roedd arbenigwyr cyfreithiol Shi'a yn dibynnu'n drwm ar ddysgeidiaeth yr imams anffaeledig. Roedd pob un ohonyn nhw'n ddisgynyddion Ali, y pedwerydd Califf a chefnder y Proffwyd, a Fatimah ei wraig, merch y Proffwyd.' (El Fadl)

'Heddwch i Hussein, a roddodd ei fywyd fel merthyr yn ffordd Allah. Dioddefodd galedi nad yw'n hysbys. Cafodd ei amgylchynu gan gylch o dristwch a galar a chafodd ei ladd yn wystl gan lofruddwyr creulon.' (Imam Jafar al-Sadiq)

'Am y rhan fwyaf o hanes dioddefodd Mwslimiaid Shi'a erledigaeth dan law Sunnis, weithiau mater o fywyd a marwolaeth. Ar adegau fel hyn roedden nhw'n cael eu cynghori gan eu Imams i guddio eu ffydd er mwyn achub eu hunain.' (Morar)

'Y peth mwyaf pendant sy'n gwahanu'r Shi'a a'r Sunni, fodd bynnag, yw'r wledd fawr o alar, cofio a gwneud iawn, sef Ashura.' (Vali Nasr)

'Felly mae digwyddiad Karbala, y bennod anhapus honno yn hanes hir Islam sydd weithiau'n waedlyd, wedi'i dyrchafu'n archdeip o ddioddefaint dynol, dioddefaint sy'n cael ei wneud yn oddefadwy drwy ei gynnwys mewn trefn gosmig ehangach, sy'n llesol yn y pen draw.' (Ruthven)

'Mae cofio'r trychineb yn Karbala a'i ail-greu defodol yno'n gonglfaen ffydd, hunaniaeth bersonol a chymunedol, a duwioldeb.' (Esposito)

Mae'n amlwg fod y trosglwyddwyr cynnar yn ystyried bod marwolaeth al-Husayn yn drasiedi i'r gymuned i gyd.' (Waines)

'Yn ystod gorymdeithiau stryd cyhoeddus, mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn curo eu brestiau a'u pennau â'u dwylo, â chleddyfau ac â chadwyni hyd yn oed. Mae hunanfflagellu, y mae'r awdurdodau'n aml yn ei anghymeradwyo, serch hynny'n ffordd boblogaidd o fynegi galar am al-Husayn.' (Waines)

'... rhan bwysig o'r defosiwn yw ymweld â beddrodau a chreirfâu'r Teulu Sanctaidd a'r Imams yn Karbala, Kazimyya, Najaf, Kufa, Qum a Mashad. Mae'r safleoedd sanctaidd hyn yn denu cannoedd o filoedd o bererinion gydol y flwyddyn. Yn hanesyddol, am resymau ariannol ac oherwydd eu bod yn hawdd mynd iddyn nhw, mae'r pererindodau hyn wedi bod yn fwy poblogaidd a chyffredin na'r hajj.' (Esposito)